

27 Mawrth 2017

Severn Trent Plc

**Po Box 5310**  
Severn Trent Water  
Customer Care  
PO Box 407  
Darlington  
DL1 9WD

Annwyl Gwsmer,

### Newidiadau pwysig i'r Farchnad Fanwerthu Dŵr yn Lloegr

Wnaethom ni ysgrifennu atoch y llynedd i ddweud fod y Farchnad Fanwerthu Dŵr yn agor i gwsmeriaid heblaw cartrefi yn Lloegr. Y rheswm dros ysgrifennu atoch ar hyn o bryd yw i danlinellu rhai newidiadau yn sut y bydd y farchnad yn gweithio yn eich ardal a sut y gallai effeithio ar eich cymhwyster i gymryd rhan.

O 1 Ebrill 2017, bydd cwsmeriaid heblaw cartrefi'n gallu dewis eu manwerthwr dŵr – y cwmni sy'n anfon biliau ac yn darparu gwasanaethau mesur a gwasanaethau eraill i gwsmeriaid. Bydd hyn yn agor y farchnad i gystadleuaeth, yn debyg iawn i sut y mae'r farchnad ynni'n gweithio heddiw.

### Ystyriaethau penodol i gwsmeriaid ac eiddo yng Nghymru

Nid yw'r Farchnad Manwerthu Dŵr yn berthnasol i Gymru ond, oherwydd y ffordd y mae'r rheoliadau'n gweithio ar hyn o bryd, mae yna rai cwsmeriaid ac eiddo yng Nghymru sy'n dod o dan reoliadau Lloegr a rhai cwsmeriaid ac eiddo yn Lloegr sy'n dod o dan reoliadau Cymru. Bydd Deddf Cymru 2017 yn newid hyn a bydd yn golygu taw llywodraeth Cymru fydd yn gosod y polisi ar gyfer Cymru gyfan tra bydd llywodraeth y DU yn gosod y polisi ar gyfer Lloegr gyfan.

Mae Severn Trent wedi ymrwymo i adeiladu busnes cryf yng Nghymru. Ar ôl i ni lwyddo i brynu Dŵr Dyffryn Dyfrdwy'n ddiweddar ac oherwydd y newidiadau cyfreithiol sy'n debygol, rydyn ni wedi penderfynu newid ymlaen llaw y ffordd rydyn ni'n trefnu ein hunain. Cyn belled â'n bod ni'n derbyn caniatâd y rheoleiddwyr, fe fyddwn, yn ystod y deuddeg mis nesaf, yn dechrau gweithredu yng Nghymru yn gyfan gwbl o dan bolisi llywodraeth Cymru ac yn Lloegr yn gyfan gwbl o dan bolisi llywodraeth y DU.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Bydd unrhyw wasanaethau manwerthu heblaw i gartrefi sy'n cael eu darparu gan Severn Trent ar hyn o bryd yn symud i Water Plus o 1 Ebrill 2017. Cydfenter yw Water Plus sydd wedi'i sefydlu gan Severn Trent ac United Utilities i wasanaethu'r farchnad ddŵr gystadleuol newydd yn Lloegr a'r Alban. Bydd Water Plus yn darparu'r gwasanaethau manwerthu dŵr i chi ar ein rhan ni.

Am gyfnod, bydd gennych hawl i newid y gwasanaethau hyn i fanwerthwr dŵr arall tra byddwn ni'n gweithio tuag at weithredu'r newidiadau yn y ffiniau. Unwaith y bydd y newidiadau yn eu lle, ni fydd gennych hawl i gymryd rhan yn y farchnad a bydd eich gwasanaethau manwerthu dŵr yn symud yn ôl i Grŵp Severn Trent o dan bolisi Cymru. Bydd hyn yn berthnasol pa un ai fyddwch chi wedi dewis aros gyda Water Plus neu wedi symud at ddarparwydd manwerthu dŵr arall.

### Beth sy'n rhaid i mi ei wneud?

Dim, ar hyn o bryd. Bydd eich gwasanaethau manwerthu'n symud yn awtomatig at Water Plus ar 1 Ebrill 2017. Mae manylion sut i gysylltu â Water Plus isod.

### Sut allu i ddarganfod rhagor?

Byddwn yn cysylltu â chi cyn y daw'r newidiadau hyn i rym i adael i chi wybod beth ddylech chi ei wneud. Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth ewch i [www.stwater.co.uk/welshcustomers](http://www.stwater.co.uk/welshcustomers) lle byddwn yn darparu rhagor o fanylion ac atebion i gwestiynau cyffredin.

A chofiwch, os hoffech chi gael unrhyw wybodaeth bellach, mae croeso i chi ein ebostio ar [Welsh.businesses@severntrent.co.uk](mailto:Welsh.businesses@severntrent.co.uk).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynghylch y farchnad agored i ddŵr ar [www.open-water.org.uk](http://www.open-water.org.uk).

Ysgrifennwch at: Water Plus limited, Two Smithfield, Leonard Coates Way, Stoke on Trent, ST1 4FD.

Ewch i: [water-plus.co.uk](http://water-plus.co.uk).

Ebost: [service@water-plus.co.uk](mailto:service@water-plus.co.uk).

Ffôn: 0345 072 6072.

Yn gywir,



Andy Smith  
Rheolwr Gyfarwyddwr  
Gwasanaethau Busnes